MASI

DISCOVERY & INNOVATION
TO CHANGE THE WORLD

DARGANFOD AC ARLOESI
I NEWID Y BYD

Swansea University
Prifysgol Abertawe

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

**2023**



# Rhagair

**Er sefydlu Prifysgol Abertawe dros ganrif yn ôl, rydym yn falch o fod wedi datblygu atebion dychmygus ac arloesol i rai o broblemau mwyaf dybryd y byd.**

Rydym wedi cyflawni hyn drwy ddod â disgyblaethau amrywiol a chyfres eang o bartneriaid a chydweithwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd, sydd wedi cydweithio â ni i gwblhau ymchwil ragorol ac iddi ddiben ac effaith yn y byd go iawn. Gan adeiladu ar yr etifeddiaeth hon, sefydlwyd Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan (MASI) gennym yn 2021 i drefnu, cynyddu a dathlu'r ymgyrchoedd rhyngddisgyblaethol niferus yr ydym yn falch o fod wedi'u meithrin o fewn ein Prifysgol.

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, fe welwch enghreifftiau lawer o angerdd cymuned MASI, a'i hymrwymiad i ddatblygu ein hamgylchedd a'n diwylliant ymchwil mewn ffyrdd sy'n gynhwysol, yn amrywiol ac yn effeithiol. Mae MASI yn siarad â phawb o fewn ein Prifysgol, ac rwy'n falch dros ben o weld bod ein myfyrwyr a'n cydweithwyr – o'r byd academaidd a hefyd o bob rhan o'n Gwasanaethau Proffesiynol — oll wedi chwarae rhan bwysig i lunio'r gweithgareddau, y prosiectau a'r effeithiau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.



Dros y tair blynedd diwethaf, mae MASI wedi datblygu i fod yn ysgogwr cadarnhaol o blaid agendâu a syniadau newydd radical, ymchwil drawsddisgyblaethol anturus a ffyrdd o weithio sy'n ceisio adlewyrchu'r amgylchedd ymchwil modern. Cenhadaeth MASI o hyd yw ysbrydoli ac annog, o fewn ein Prifysgol ac ymhell y tu hwnt i'w ffiniau. Mae'r sefydliad wedi hen ennill ei blwyf bellach, a hyderaf y bydd yn parhau i atgyfnerthu ac adlewyrchu ymrwymiad ehangach Prifysgol Abertawe tuag at ymchwil sy'n ysgogi newid gwirioneddol er gwell, er budd ein planed a'i phobl.

**Yr Athro Paul Boyle**
**Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe**





# Cyflwyniad

**Lansiodd Prif Weinidog Cymru Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan (MASI) ar 26 Chwefror, 2021. Ni yw Sefydliad Astudiaethau Uwch cyntaf Cymru sy'n canolbwyntio ar ymchwil drawsddisgyblaethol drawsnewidiol.**

Yn y ddwy flynedd a hanner ers hynny, mae MASI wedi datblygu'n gymuned fywiog a ffyniannus. Rydym wedi annog a meithrin grwpiau ac unigolion lluosog i fynd i'r afael â phrosiectau ymchwil anturus ac uchelgeisiol ac iddynt ddiben ac effaith. Rydym yn falch bod ymchwilwyr, ysgolheigion a chydweithwyr gwasanaethau proffesiynol ar sawl cam o'u gyrfa – o fyfyrwyr israddedig i athrawon sefydledig – wedi cyfrannu at ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.

Yn y cyfnod byr er sefydlu MASI, cafwyd pandemig; argyfyngau costau byw a stormydd geowleidyddol fu'n destun pryder. Rydym hefyd wedi dod yn fwy ymwybodol o fygythiadau i fodolaeth dyn oherwydd y newid hinsawdd, a'r "argyfwng gwirionedd".

Yng nghanol hyn oll, mae ein cymuned yn ymdrechu i fod yn ffynhonnell o oleuni, gobaith a newid.

Eleni sefydlwyd ein Bwrdd Cynghori Allanol a gyfarfu am y tro cyntaf yn ystod hydref 2023. Bydd y grŵp uchel ei barch hwn yn helpu i lunio'r cam nesaf yn ein taith i gefnogi'r Cyfarwyddwr MASI Newydd.





Gobeithio y cewch eich ysbrydoli gan yr hyn a welwch yma, ac y byddwch yn ymuno â'n gwaith er mwyn helpu i greu prifysgolion fel rydym wedi'u hadnabod erioed – mannau lle gall pob dawn ffynnu a blodeuo drwy wasanaethu deallusol.

**Yr Athro Matt Jones**
**Cyfarwyddwr Sefydlu MASI**

# Lluniau o'r Sioe Arddangos (Ebrill 23), Digwydd-diad Llunio Cynnig (Mehefin 23), a Digwyddiad Meithrin Gallu a Chyflwyno i Banel UKRI




















# Tîm ac Adnoddau MASI



**Yr Athro Matt Jones**
Cyfarwyddwr Sefydlu MASI

**Yr Athro Matt Jones** yw Cyfarwyddwr Sefydlu MASI, ac mae'n canolbwyntio ar feithrin y diwylliant a'r gymuned drawsddisgyblaethol ar draws y Brifysgol.




**Heidi Rees**
Uwch Swyddog Prosiect

**Heidi Rees** yw'r Uwch Swyddog Prosiect. Mae hi'n gweithio i sicrhau bod y Sefydliad yn cael ei gynnal yn llyfn, ac i hyrwyddo a chynnal ein cysylltiadau ar draws y Brifysgol a thu hwnt.

# Cymrodyr MASI



Chris Marshall



Ian Mabbett



Thomas Reitmaier



Lella Nouri



Kimberley Dienes



Kelly James



Krijn Peters



Karl Hawkins

Mae Cymrodyr MASI yn ategu gwaith ein tîm creiddiol. Yn dilyn Galwad Agored, dewiswyd wyth Cymrawd o blith ugain ymgeisydd – dau academydd o bob Cyfadran a dau o'r Gwasanaethau Proffesiynol, y naill yn gynnar a'r llall wedi'i sefydlu yn ei yrfa – er mwyn helpu i ymwreiddio gwaith MASI yng nghyd-destun ehangach y brifysgol, a helpu i ganfod cysylltiadau a chyfleoedd.





O ran yr adnoddau a ddarperir i'r Sefydliad, mae'r brifysgol yn darparu cyllideb staff ar gyfer: 50% o amser Jones fel Cyfarwyddwr ac 80% ar gyfer Rees; yn ogystal â hynny, ar gyfer y Flwyddyn Ariannol sydd i ddod (2023-2024) ceir dyraniad o £233k nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, y mae oddeutu 12% ohono wedi'i neilltuo i feithrin gallu a rhwydweithiau, a'r gweddill i'w fuddsoddi mewn cynigion llwyddiannus.

# Bwrdd Cynghori Allanol



Yr Athro Jonathan Lazar PhD, LLM



Yr Athro Anne Boddington



Yr Athro Alan Penn



Kellie Beirne



Yr Athro Peter Halligan



Yr Athro Sarah Sharples



Yr Athro Tom Rodden



Yr Athro ShashiPrabha Kumar



Syr Frank Atherton

Mae'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) a Chyfarwyddwr MASI hefyd yn aelodau o'r bwrdd yn rhinwedd eu swyddi.

# Buddsoddiadau MASI 2022/2023

Ar ôl dros ddwy flynedd fyw gyda'r pandemig, ynghyd â phryderon byd-eang mwy diweddar, mae MASI yn chwilio am gynigion a fydd yn gwella'r ffordd rydym yn byw ac yn meddwl, gan fyfyrio ar y cyfnodau anodd hyn yr ydym wedi'u profi gyda'n gilydd, a dysgu yn eu sgil. Er bod rhai yn galw arnom i ddychwelyd i "normalrwydd" neu i'r "normal newydd", rydym yn chwilio am waith a fydd yn diffinio'r "rhyfeddol newydd". Hynny yw, byd sy'n ymateb o ddifri i'r heriau, y problemau a'r cyfleoedd a ddaeth i'r amlwg dros y 24+ mis diwethaf.

- **Prosiectau Gwersyll Cychwynnol** yn cyflawni ymchwil ar wib, dros gyfnod o flwyddyn, gan greu cynnyrch clir, meithrin gallu, cwblhau gwaith dichonoldeb ar gyfer ceisiadau grant allanol ac/neu ddarpar Brosiectau Copa. Byddwn yn darparu hyd at £5,000 o gyllid fesul prosiect gwersyll cychwynnol.
- Ymgyrchoedd 2 flynedd yw **prosiectau Copa** (1 Awst 2022 – diwedd Gorffennaf 2024), a'u nod yw "gosod baner" ar "gopa" deallusol a dylanwadol newydd sbon. Hynny yw, maen nhw'n cyflawni gwaith ymchwil sylweddol gan greu cynnyrch pwysig, diffinio agendâu a chreu gweledigaethau y bydd eraill yn anelu i'w dilyn. Disgwylir i'r prosiectau arwain at o leiaf un cais strategol am grant allanol. Byddwn yn darparu hyd at uchafswm o £15,000 y flwyddyn fesul Copa (cyfanswm o £30,000). We fund a maximum of £15,000 a year per Summit (£30,000 total).
- Disgwylir i **Gymrodyr Gwadd Rhyngwladol** ymrwymo tua mis o'u hamser yn Abertawe ac mae disgwyl i'w cynigion ddangos sut y byddant yn helpu i adeiladu a chryfhau agendâu trawsddisgyblaethol. Disgwylir i gymrodyr roi o leiaf un Ddarlith MASI gyhoeddus (sy'n hygyrch i gynulleidfa gyffredinol) a rhyngweithio â Phrifysgolion ledled Cymru. Rydym yn disgwyl darparu hyd at £5,000 fesul Cymrodoriaeth (teithio a chynhaliaeth).

Yn dilyn galwad agored a phroses adolygu a phanel yn seiliedig ar arfer gorau'r UKRI, gwnaed y buddsoddiadau canlynol a chyhoeddi gwobrau Gwersyll Cychwynnol, Copa a Chymrodyr Gwadd yn haf 2022. Yn ogystal â hynny, yn fuan yn 2023 cynhaliom Alwad Agored arall am Ddigwyddiadau Gosod yr Agenda, a ganolbwyntiai ar greu taflwybrau ymchwil aflonyddol a rhagweithiol, ar gyfer cyfleoedd allanol yn y dyfodol. Ariannwyd tri chynnig. Ceir manylion llawn y prosiectau yn Atodiad I.

**Tabl 1:** Ceisiadau a Buddsoddiadau 2022-2023. Dangosir Cyfadran Gartref y prif gynigydd, ond roedd pob cynnig llwyddiannus yn cynnwys o leiaf dwy Gyfadran.


| Mecanwaith | Ceisiadau | Cyllidwyd | Cyllidwyd: Y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwersyll Cychwynnol | 7 | 5 | 1 | 1 | 3 |
| Copa | 18 | 5 | 1 | 3 | 1 |
| Cymrawd Gwadd | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Digwyddiadau Gosod yr Agenda | 3 | 3 | 0 | 1 | 2 |





Gofynnwyd i ymgeiswyr nodi pa ddisgyblaethau oedd wedi'u cynrychioli yn nhîm eu cynnig. Dangosir y dosbarthiad yn Ffigur 1:

**Ffigur 1:** Disgyblaethau a gynrychiolir yn y ceisiadau. Mae'r data'n cynnwys ymgeiswyr o'r 29 o Gynigion MASI.




Mae'r buddsoddiadau hyn yn golygu ein bod wedi cyllido 35 o brosiectau ers dechrau MASI, fel y nodir yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2:** Cyfanswm y prosiectau a ariannwyd gan MASI.

| Math o Brosiectau | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Total |
|---|---|---|---|---|
| Gwersyll Cychwynnol | | 5 | 7 | 12 |
| Copa | | 3 | 8 | 11 |
| Cymrawd Gwadd | | 1 | 1 | 2 |
| Digwyddiadau Gosod yr Agenda | | 4 | 3 | 7 |
| Haf Gobaith | 3 | | | 3 |
| | | | **Cyfanswm** | **35** |

Mae MASI yn defnyddio dull "Buddsoddwr Gweithredol" – bydd y tîm yn cyfarfod yn fisol ag arweinwyr prosiectau i annog a chefnogi eu gwaith, a hefyd i ystyried cyfleoedd am gyllid allanol. Mae cynigion ariannu eisoes wedi arwain yn uniongyrchol at ystod o ganlyniadau, gan gynnwys papurau a cheisiadau am grant allanol. Mae ein digwyddiadau a gweithgareddau a gynhaliwyd gan y prosiectau a gyllidwyd hefyd wedi bod o gymorth i feithrin pobl a diwylliant sy'n croesawu gwaith trawsddisgyblaethol.

Manylion y rhain rhoddir canlyniadau prosiectau a ariannwyd yn Atodiad II.

# Meithrin Gallu

Rhan greiddiol o genhadaeth MASI yw meithrin gallu ar draws y brifysgol er mwyn cyflawni gwaith ystwyth, aflonyddol, trawsddisgyblaethol, ac arddull ac ymagwedd sy'n gydnaws â thueddiadau buddsoddi UKRI a chyrff cyllido allanol eraill. I'r perwyl hwn, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae tîm MASI wedi trefnu neu chwarae rhan greiddiol mewn cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio, hyfforddi a llunio cynigion, gan gynnwys:

- Ciniawau a thrafodaethau rhwydweithio misol i feithrin gallu;
- Sioe Arddangos MASI i ddod â'n holl brosiectau a ariennir a'r gymuned ehangach ynghyd;
- Llunio Cynigion – digwyddiad i helpu ein cymuned i baratoi cais am arian MASI; a
- "Ffau'r Dreigiau" Cynllun Peilot Traws-Gyngor yr UKRI – i helpu ein cymuned i archwilio'r cyfleoedd yn gysylltiedig â'r alwad hon.


Mae cyfanswm o 79 o gydweithwyr ar bob gradd yn eu gyrfa (o Ymchwil Ôl-raddedig i Athro Llawn) wedi cymryd rhan mewn prosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt (ac roedd 36% o'r rhain yn Ymchwilwyr Ôl-raddedig, yn Gynorthwywyr Ymchwil Ôl-ddoethurol neu'n Ddarlithwyr).

Yn ogystal â hyn, cymerodd Jones ran mewn cais llwyddiannus am £31m UKRI ar gyfer rhaglen drawsddisgyblaethol ar AI Cyfrifol (rai.ac.uk), gan dynnu MASI i mewn i'r gymuned fywiog honno. Bydd ymchwilwyr ar draws ein cymuned – yn Abertawe, yn y rhanbarth, yng Nghymru a thu hwnt – yn cael eu hannog i wneud cais am gyllid ac i gysylltu ar draws yr ecosystem gyfoethog newydd hon.

Un o'n nodau yw cael mwy o gydweithwyr i gymryd rhan mewn paneli allanol a gweithio gyda chyllidwyr. Yn ddiweddar penodwyd Ian Mabbet (Cymrawd MASI) a Matt Jones (Cyfarwyddwr MASI) yn Aelod a Chadeirydd Pwll Coleg Traws-Gyngor yr UKRI.

Er gwaethaf pwysigrwydd canlyniadau mesuradwy yn sgil buddsoddiadau MASI, rydym hefyd yn falch o weld ymatebion ansoddol cadarnhaol i arolwg a anfonwyd at holl enillwyr dyfarniadau MASI (gweler Ffigur 2). Yn ogystal, rhoddodd ymatebwyr "Sgôr Hyrwyddwr Net" o 61 (sy'n gadarnhaol iawn).

**Figure 2:** Feedback Survey Results, N=26








# Myfyrio a Dysgu

Mae MASI wedi gosod Abertawe mewn sefyllfa i fanteisio ar y mathau o alwadau am gyllid allanol sy'n dod i'r amlwg gan UKRI a thu hwnt. Yn gynyddol, mae cyllidwyr yn chwilio am dimau amrywiol, trawsddisgyblaethol i weithredu ar raddfa fwy, neu mewn ffyrdd "risg uchel, enillion uchel". Enghraifft nodedig o hyn yw'r Cynllun Peilot Traws-Gyngor. Roedd penderfyniad y Brifysgol yn 2019 i greu a darparu adnoddau ar gyfer Sefydliad Astudiaethau Uwch yn rhagweledol, a bydd yn arwain at gynigion mwy cystadleuol o'n cymuned i'r cynlluniau hyn.

Gwelir "enillion" mesuradwy clir ar fuddsoddiad MASI (gan gynnwys cyhoeddiadau a chyflwyniadau grant) wrth siarad ag aelodau o'n cymuned o bob cam ac ar draws pob disgyblaeth, ond mae'r effaith hyd yn oed yn fwy. Mae pobl sy'n ymgysylltu â MASI yn teimlo wedi'u tanio, eu hannog a'u galluogi i gyflawni ymchwil ragorol ac iddi ddiben ac effaith.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hon, buom yn ymgynghori ac yn dadlau ynghylch datblygu ein strategaeth fuddsoddi tuag at fodel Astudiaethau Uwch mwy traddodiadol, gan gyllido carfannau o Gymrodyr Gwadd i ymuno â ni am gyfnod yn Abertawe. Roedd llawer iawn o frwdfrydedd ynghylch hyn, ond teimlwyd yn gyffredinol mai'r flaenoriaeth oedd defnyddio ein hadnoddau i barhau â mecanweithiau'r Gwersyll Cychwynnol a Chopa, a ninnau yng nghyfnod cynnar ein datblygiad. Fodd bynnag, byddwn yn ailystyried mentrau amgen ac ychwanegol dros y flwyddyn sydd i ddod.

# Y Flwyddyn i Ddod

Mae prosiectau 2023-2024 wedi cael eu dewis, a byddant yn gweithio ar eu syniadau cyffrous dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae gan ein tîm yn MASI dair blaenoriaeth glir dros y cyfnod nesaf hwn – cefnogi rhagor o gynigion cystadleuol o ansawdd uchel, yn enwedig i alwadau Traws-Gyngor; ehangu cyfranogiad ac ymgysylltiad ar draws y Brifysgol a thu hwnt, fel y gall llawer o bobl eraill elwa ar yr effeithiau diwylliannol a welwyd gennym; a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer y cam nesaf yn natblygiad MASI.

# ATODIAD I

## BUDDSODDIADAU A GYLLIDWYD 2022-23





## Prosiectau Gwersyll Cychwynnol

### Teitl: Ystwytho: Addysg Ôl-uwchradd Drawsddisgyblaethol i Gymru

**Prif Gynigydd:** Dr Natalie Wint (Senior Lecturer, Engineering, Swansea University)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Dr Wayne Thomas (Uwch Ddarlithydd, Economeg, Prifysgol Abertawe), Dr Adam Mosley (Athro Cyswllt, Hanes, Prifysgol Abertawe), Rhys Jones (Uwch Ddarlithydd, Y Cyfryngau, Prifysgol Abertawe) Nathalie Al Kakhoun (Cynorthwyydd Ymchwil, Prifysgol Abertawe). Sylwer: Cymerodd Nathalie Al Kakhoun rôl Arweinydd Prosiect ym mis Chwefror 2023 ar ôl i Natalie Wint ymadael â Phrifysgol Abertawe.

### Teitl: Creu Dyfodol Cynaliadwy drwy Ddylunio Gemau

**Prif Gynigydd:** Dr Geraldine Lublin (Athro Cyswllt Ieithoedd Modern, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** (Rheolwr Rhaglen ac Uwch Ddarlithydd mewn Arloesi ac Ymgysylltu, Prifysgol Abertawe), Ms Marina Saez Lecue (Ymarferydd Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon), Dr Sean Walton (Uwch Ddarlithydd Cyfrifiadureg, Prifysgol Abertawe), Dr Claire Williams (Athro Cyswllt Seicoleg, Prifysgol Abertawe).

### Teitl: Robot Cymdeithasol ar gyfer Llesiant Meddyliol wedi'i Gyd-ddylunio â Phobl Hŷn

**Prif Gynigydd:** Dr Deepak Sahoo (Athro Cyswllt Cyfrifiadureg, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Muneeb Ahmad (Darlithydd Cyfrifiadureg, Prifysgol Abertawe), Dr Martin Hyde (Athro Cyswllt Gerontoleg, Prifysgol Abertawe).

### Teitl: SGWRS HAUL: Sgyrsiau diogelwch HAUL am Agweddau Iach at Liw Haul: archwilio canfyddiadau plant ysgol a'u rhieni/gofalwyr [Cam 1]

**Prif Gynigydd:** Dr Julie Peconi (Uwch Swyddog Ymchwil, Gwyddor Data Iechyd, Prifysgol Abertawe) a Dr Gisselle Tur Porres (Darlithydd Astudiaethau Plentyndod Cynnar, Addysg, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Rachel Abbott (Dermatolegydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Arweinydd Atal Canser y Croen Cymru), Ms Kirsty Lanyon (Cynorthwyydd Ymchwil, Gwyddor Data Iechyd, Prifysgol Abertawe), Dr Helen Lewis (Athro Cyswllt a Chyfarwyddwr Rhaglen TAR Addysgu Cynradd , Prifysgol Abertawe), Dr Emily Marchant (Cymrawd Ymchwil, Ymchwilydd Iechyd ac Addysg Plant, Prifysgol Abertawe).

### Teitl :Y Gymraeg a gwella gwydnwch rhag dementia: gweithredu'n lleol er effaith fyd-eang

**Prif Gynigydd:** Dr James T Murray (Uwch Ddarlithydd y Gwyddorau Biofeddygol, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Gwennan Higham (Uwch Ddarlithydd y Gymraeg, Prifysgol Abertawe), Yr Athro Andrea Tales (Cyfarwyddwr y Ganolfan Heneiddio Arloesol, Athrofa Awen a'r Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia, Prifysgol Abertawe).

**Nod y Prosiect:** TY Weledigaeth: Adeiladu capasiti rhwydweithio er mwyn i Brifysgol Abertawe arwain astudiaeth genedlaethol o ddwyieithrwydd yng Nghymru ar gyfer gwella'r gronfa wybyddol, a lleihau'r risg o ddirywiad gwybyddol a dementia. Gallai hybu rhuglder a hyfedredd yn y Gymraeg fod o fudd i iechyd yn lleol.

### Teitl: Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd

**Prif Gynigydd:** Dr Frederico Lopez-Terra (Athro Cyswllt Ieithoedd Modern, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Geraldine Lublin (Athro Cyswllt Ieithoedd Modern, Prifysgol Abertawe), Dr Alex Southern (Darlithydd Addysg, Prifysgol Abertawe), Dr Chris Pak (Darlithydd Llenyddiaeth Saesneg, Prifysgol Abertawe), Dr Anna Pigot (Darlithydd Daearyddiaeth, Prifysgol Abertawe), Yr Athro Andrew Kemp (Arweinydd Ymchwil yr Ysgol Seicoleg, Prifysgol Abertawe), Dr Panu Pihkala (Arbenigwr Eco-bryder, Athrofa Gwyddor Cynaliadwyedd Helsinki, Y Ffindir), Yr Athro Roxana Rugnitz (Sefydliad Addysg Uwch (IPA)),Yr Athro Carolina Raimondo Aonso (Sefydliad Addysg Uwch (IPA)).

# Prosiectau Copa

### Teitl: Rhaid edrych yn ôl er mwyn symud ymlaen: dadorchuddio 'etifeddiaeth' y gorffennol trefedigaethol a phatriarchaidd yn STEMM yr oes fodern – Blwyddyn 2

**Prif Gynigydd:** Dr Patricia Xavier (FSE) (Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Nathalie Al Kakoun (Peirianneg), Fred Boy (Busnes), Ana Da Silva (Meddygaeth), Alys Einon Waller (Bydwreigiaeth), Catherine Groves (Busnes).

### Teitl: Gwydnwch, her a newid: Dysgu o brofiad bywyd nyrsys o bandemig COVID-19 yng Nghymru a thu hwnt Blwyddyn 2

**Prif Gynigydd:** Dr Ian Beech, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe

**Cyd-gynigydd/wyr:** Yr Athro David Turner, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe, Dr Michael Bresalier, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe, Dr Sarah Crook, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe, Dr Laura Kalas, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe, Hywel Thomas, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe, Trudi Petersen, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe, Stephen Mckenna-Lawson, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe.

### Teitl: MASI – Lablet Mumbai – Blwyddyn 2

**Lead Proposer:** Dr Thomas Reitmaier (Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg)

**Co Proposer/s:** Dr Awawing Anjwengwo Andongma (Meddygaeth, Prifysgol Abertawe), Dr Erin P Dooley (Adran Peirianneg Drydanol ac Electronig, Prifysgol Bryste).

### Teitl: Y Lab Hinsawdd Byd-eang – Blwyddyn 1

**Prif Gynigydd:** Prof Tavi Murray (Professor in Geography, Swansea University)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Yr Athro Kirsti Bohata (Athro Llenyddiaeth Saesneg, Prifysgol Abertawe), Dr Osian Elias (Darlithydd Daearyddiaeth Ddynol, Daearyddiaeth, Prifysgol Abertawe), Dr Ian Mabbett (Athro Cyswllt Cemeg, Prifysgol Abertawe), Dr Hanna Nuuttila (Uwch Swyddog Ymchwil yn y Biowyddorau, Prifysgol Abertawe), Dr Anna Pigott (Darlithydd Daearyddiaeth, Prifysgol Abertawe), Yr Athro Owen Sheers (Athro Creadigrwydd, Llenyddiaeth Saesneg, Prifysgol Abertawe), Dr Merryn Thomas (Swyddog Ymchwil yn y Biowyddorau, Prifysgol Abertawe).

### Teitl: A yw ymddiriedaeth o bwys? Sefydlu agenda ymchwil a phecyn cymorth ymgysylltu â llunwyr polisi – Blwyddyn 1

**Prif Gynigydd:** Dr Gabriela Jiga-Boy (Uwch Ddarlithydd Seicoleg, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Dion Curry (Athro Cyswllt Gwleidyddiaeth, Athroniaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol Abertawe), Yr Athro Yvonne McDermott Rees (Athro yn y Gyfraith, Prifysgol Abertawe).

### Teitl: Datblygu Iaith Weledol Ddigidol sy'n Hygyrch, yn Amrywiol ac yn Gynhwysol – Blwyddyn 1

**Prif Gynigydd:** Dr Irene Reppa (Uwch Ddarlithydd Seicoleg, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Cristina Izura (Athro Cyswllt Seicoleg, Prifysgol Abertawe), Dr Deborah Morgan (Uwch Swyddog Ymchwil, Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol Abertawe), Jay Morgan, Dr Maria Fernandez Parra (Uwch Ddarlithydd Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd, Ieithoedd Modern, Prifysgol Abertawe), Yr Athro Andreas Sonderegger (Athro Gwyddorau Cymhwysol, Prifysgol Bern, y Swistir)).

### Teitl: CREDENTIALs: Cynyddu Empathi myfyrwyr proffesiynol iechyd gyda phrofiadau cleifion byddar drwy ddysgu efelychiadolin

**Prif Gynigydd:** Dr Julia Terry (Athro Cyswllt Nyrsio, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Jo Davies (Athro Cyswllt/ Cyfarwyddwr Addysg Efelychu, Prifysgol Abertawe), Nikki Williams (Arweinydd Addysg Ryngbroffesiynol), Dr Rhian Meara (Uwch Ddarlithydd Daearyddiaeth, Prifysgol Abertawe), Dr Marc Holmes (Arbenigwr VR, Prifysgol Abertawe).

### Teitl: Hiliaeth, Gwahaniaethu Digidol ac Iechyd Meddwl yn ystod ac ar ôl Pandemig COVID-19: Astudiaeth achos o gymunedau Dwyrain a De-ddwyrain Asia 1 yn y DU – Blwyddyn 1

**Prif Gynigydd:** Dr Yan Wu (Athro Cyswllt y Cyfryngau, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Irene Reppa (Uwch Ddarlithydd Seicoleg, Prifysgol Abertawe), Dr Martin Porcheron (Uwch Ddarlithydd Cyfrifiadureg, Prifysgol Abertawe).

# Cymrodyr Gwadd

### Teitl: Technoleg Gyfreithiol ar gyfer Seiberddiogelwch

**Prif Gynigydd:** (Uwch Ddarlithydd mewn Cyfraith Gyfrifiadurol, Prifysgol Abertawe).

## Digwyddiadau Gosod yr Agenda MASI

### Teitl: Adeiladu Dyfodol Cydnerth: Gweithdy Gosod yr Agenda ar Algorithmau a Niwed Ar-lein

**Prif Gynigydd:** Nicholas Micallef – Darlithydd (Cyfrifiadureg: Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Joe Whittaker – Darlithydd (Troseddeg, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol: Cyfadran y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol), Sara Correia – Darlithydd (Y Gyfraith: Cyfadran y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol), Ellie Rogers — Cynorthwyydd Ymchwil (Y Gyfraith: Cyfadran y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol).

### Teitl: Creu a Chyfleu Gweledigaethau Cadarnhaol am Ddyfodol Cynaliadwy

**Prif Gynigydd:** Dr Amy Isham (Seicoleg, Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Yr Athro Andrew Kemp (Seicoleg, Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd), Dr Anna Pigott (Daearyddiaeth, Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg), a Dr Chris Pak (Llenyddiaeth Saesneg, Cyfadran y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol).

### Teitl: Cynhyrchion Naturiol – Cyfleoedd Newydd

**Prif Gynigydd:** Dr. Farooq A. Shah (Rheolwr, BioHWB Cynnyrch Naturiol, Prifysgol Abertawe)

**Cyd-gynigydd/wyr:** Dr Geertje van Keulen (Athro Cyswllt, Gwyddorau Biofeddygol, Prifysgol Abertawe) a'r Athro Tariq Butt (Athro yn y Biowyddorau, Prifysgol Abertawe).





# ATODIAD II

## CANLYNIADAU 2022-23

**Tabl 3:** Gwaith wedi'i ariannu a Chanlyniadau

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Cyhoeddiadau |
|---|---|---|
| Robot Cymdeithasol ar gyfer Llesiant Meddyliol wedi'i Gyd-ddylunio â Phobl Hŷn | Gwersyll Cychwynnol | Sarah Alhouli, Nora Almania, Muneeb I. Ahmad, Martin Hyde and Deepak Sahoo. 2023. Older Adults' Emotional Challenges and Co-design Preferences for a Social Robot after the COVID-19 Pandemic. 2023 IEEE RO-MAN. **https://ro-man2023.org/main** |
| Datblygu Iaith Weledol Ddigidol sy'n Hygyrch, yn Amrywiol ac yn Gynhwysol | Copa Blwyddyn 1 | D Earnshaw, J Morgan, C Izura, M Fernandez-Parra, D Morgan, & I Reppa. 2023. Swansea Icon Norms: Ratings of 1,000 icons on 7 scales. Cyflwynwyd gwaith hefyd yn arddangosfa Oriel Science (**https://www.orielscience.co.uk/s-projects-side-by-side**). |
| SunChat: SUN safety Conversations about Healthy Attitudes to Tanning: exploring perceptions of school children and their parents/carers [Cam 1] | Gwersyll Cychwynnol | Gisselle Tur Porres, Kirsty Lanyon, Rachel Abbott, Helen Lewis, Emily Marchant, Julie Peconi. 2023. SunChat: Exploring perceptions of and attitudes towards tanning with school children, parents/carers, and educators in Wales: A mixed methods protocol (a mixed method protocol) Dan adolygiad cymheiriaid ar gyfer Plos Un |
| Athletwyr Trawsrywiol mewn Chwaraeon Elît | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2022 | A Shaw, A.G Williams, G.K Stebbings, M Chollier, A Harvey & S.M Heffernan. 2023.<br><br>The Perspective of Current and Retired World Class/Elite Athletes on the Inclusion and Eligibility of Transgender Athletes in Elite Sport. Yn destun adolygiad cymheiriaid ar gyfer y British Journal of Sports Medicine |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Grantiau Allanol a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| Creu Dyfodol Cynaliadwy drwy Ddylunio Gemau | Gwersyll Cychwynnol | Dyfarnwyd grantiau lluosog gwerth cyfanswm o bron i £65k. "Lliniaru eco-bryder wrth gyflawni ymchwil argyfwng hinsawdd gyda grwpiau agored i niwed: trafodaeth fethodolegol amlddisgyblaethol" (Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, Neidio Disgyblaethau ar gyfer Gwyddoniaeth Ddarganfod) a "Newid y Gêm: Cyd-greu dyluniad gêm er mwyn gweithredu ynghylch sero net a bioamrywiaeth" (Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Cyflymwyr Dylunio) |
| Prosiect ar y Cyd rhwng India a'r DU i Ddatgarboneiddio er mwyn Sicrhau Canlyniadau Sero Net Teg (ASE 2022) | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2022 | Symposiwm Sero Net India-DU 2023 — grant o £10k wedi'i ddyfarnu gan UKRI |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Grantiau Mewnol a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| Creu Dyfodol Cynaliadwy drwy Ddylunio Gêm | Gwersyll Cychwynnol | "Mae pawb yn yr un cwch — pontio'r bylchau rhwng addysgwyr i gyflwyno addysg newid hinsawdd o'r Dosbarth Derbyn hyd at y 6ed" (Cyfadran Iechyd a Gwyddorau Cymdeithasol, Cronfa Heriau UKRI ar gyfer 2022-23) |
| Hiliaeth Gwrth-Asiaidd yn ystod ac ar ôl COVID | Copa Blwyddyn 1 | Mae cronfa Hac Cymunedol fewnol o £500 wedi'i sicrhau o'r enw "Brwydro yn erbyn Hiliaeth Wrth-Asiaidd yn Deillio o Bandemig Covid-19" |
| Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd | Gwersyll Cychwynnol | Mae amryw o Grantiau Mewnol wedi cael eu dyfarnu, gan greu cyfanswm o dros £26k. "Hwb Iaith, Diwylliant a Chymdeithasau Gweithredu ar Newid Hinsawdd Abertawe-Grenoble", "Lliniaru eco-bryder wrth ymchwilio i'r argyfwng hinsawdd gyda grwpiau agored i niwed: trafodaeth fethodolegol amlddisgyblaethol" a "Mapio gwerthoedd a gweledigaethau o'r 'Bywyd Da' ym Mhrifysgol Abertawe." |

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 | MASI

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Grantiau Mewnol a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| SunChat: SUN safety Conversations about Healthy Attitudes to Tanning: exploring perceptions of school children and their parents/carers [Cam 1] | Gwersyll Cychwynnol | Cynllun Peilot Modd Ymatebol UKRI ar Draws Cynghorau Ymchwil: cylch 1 o dan y teitl "Plant yn 'Grymuso' Plant: Cynyddu Ymwybyddiaeth Feirniadol a Defnyddio Realiti Estynedig i Atal Canser yng Nghymru a Lloegr" |
| Adeiladu Dyfodol Cydnerth: Gweithdy Gosod yr Agenda ar Algorithmau a Niwed Ar-lein | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Cynllun Peilot Modd Ymatebol UKRI ar Draws Cynghorau Ymchwil: cylch 1 o dan y teitl "Grymuso Rhanddeiliaid: Fframwaith ar gyfer Archwilio Systemau Argymell" |
| Creu Dyfodol Cynaliadwy drwy Ddylunio Gemau | Gwersyll Cychwynnol | Cynllun Peilot Modd Ymatebol UKRI ar Draws Cynghorau Ymchwil: cylch 1 o dan y teitl "Sut mae ymdeimlad athrawon o'u cynefin yn effeithio ar eu dull o ddarparu addysg newid hinsawdd?" |
| Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd | Gwersyll Cychwynnol | Dylunio sy'n canolbwyntio ar Ddyn(iaethau) ar gyfer Cenedl Fioffilig (Dylunio i Fyw (Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau)) a "Cydnerthedd a Grymuso wrth Gyfathrebu mewn Ffuglen Hinsawdd — Epistemoleg De a Gogledd y Byd" ( Emosiynau Hinsawdd i Achub y Byd) |
| A yw ymddiriedaeth o bwys? Sefydlu agenda ymchwil a phecyn cymorth ymgysylltu â llunwyr polisi | Copa Blwyddyn 1 | Mae cynigion wedi'u cyflwyno o'r enw "Canfyddiadau cynulleidfaoedd o ymddiriedaeth mewn timau Tasglu anymladdol" (Cyflymydd Amddiffyn a Diogelwch), "Harneisio normau cymdeithasol ac arddulliau cyfathrebu i gynyddu ymddiriedaeth mewn brechlynnau" (Galwad gymdeithasol yr Academi Brydeinig "Parodrwydd am Bandemig: Gwersi i'w Dysgu yn sgil COVID-19 ar draws y G7"), "Camdybiaethau ynghylch ymddiriedaeth" (Cronfa ysgoloriaeth PhD y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd) ac "A yw gwleidyddion yn ymddiried mewn dinasyddion?" (Ysgoloriaethau PhD SURES y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd) |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Rhaid edrych yn ôl er mwyn symud ymlaen: dadorchuddio 'etifeddiaeth' y gorffennol trefedigaethol a phatriarchaidd yn STEMM yr oes fodern | Copa Blwyddyn 2 | Cynnal gweithdy cenedlaethol yn trafod neo-ryddfrydiaeth mewn Addysg Peirianneg. Wedi cynnal cyfweliadau ag academyddion STEM i nodi'r prif werthoedd a chasglu dros 200 o holiaduron seicometrig ar werthoedd a pherffeithrwydd |
| Lablet Mumbai MASI | Copa Blwyddyn 2 | Wedi gweithio gyda Ffermwyr yn India i gyd-greu setiau data a datblygu systemau i ganfod peunod crwydrol fel y gall ffermwyr gymryd camau priodol a lleihau difrod i'w cnydau |
| Datblygu Iaith Weledol Ddigidol sy'n Hygyrch, yn Amrywiol ac yn Gynhwysol | Copa Blwyddyn 1 | Cynnal astudiaethau graddfa fawr i gasglu normau eicon gan wirfoddolwyr. Arddangos eu gwaith hefyd yn Oriel Wyddoniaeth Abertawe |
| Y Lab Hinsawdd Byd-eang | Copa Blwyddyn 1 | Cydweithio rhwng gwyddonwyr, peirianwyr ac artistiaid gan ddefnyddio gweithdai ar-lein lle bo artistiaid gwadd yn cymryd rhan ochr yn ochr â'r gwyddonwyr ac yn cael gwahoddiad i gynnig 'ymatebion creadigol' drwy gyfrwng o'u dewis, boed hynny drwy ysgrifennu, drwy fideo, drwy osodwaith sain, perfformiad neu gelf weledol |
| Hiliaeth Wrth-Asiaidd yn ystod ac ar ôl COVID | Copa Blwyddyn 1 | Drwy'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb a'r sesiynau taflu syniadau â Phrifysgol Bournemouth, nododd yr ymchwilwyr themâu ymchwil cyffredin, methodolegau cyffredin, a thrafod sut i integreiddio eu harbenigedd i gynnal ymchwiliadau mwy cynhwysfawr. Ym mis Rhagfyr 2022 cynhaliwyd Grŵp Ffocws hanner diwrnod gyda Phartneriaid Allanol gan gynnwys y Gymdeithas Pobl Tsieineaidd yng Nghymru a Race Council Cymru. Cynhaliwyd hefyd y Prosiect Hac Cymunedol ym mis Mehefin 2023. Bu'r ddau ddigwyddiad yn llwyfan rhyfeddol er mwyn meithrin ymgysylltiad a chydweithrediad cymunedau. Llwyddwyd i wahodd aelodau o wahanol genedlaethau a chefndiroedd, gan greu clytwaith cyfoethog o safbwyntiau ynghylch problemau a phryderon yn gysylltiedig â chydraddoldeb hiliol yng Nghymru |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Canlyniadau |
|---|---|---|
| A yw ymddiriedaeth o bwys? Sefydlu agenda ymchwil a phecyn cymorth ymgysylltu â llunwyr polisi | Copa Blwyddyn 1 | Wedi cynnal adolygiad byr o lenyddiaeth am Ymddiriedaeth. Adeiladu gwefan y Lab Ymddiriedaeth er mwyn hysbysu yn ogystal â chyfathrebu. Bydd y wefan yn fyw yn fuan. Mynd i gynhadledd yn Krakow ar gyfer Ymchwilwyr Seicoleg Gymdeithasol yn Ewrop |
| CREDENTIALs: inCReasing health professional students' Empathy with Deaf patients' ExperieNces Through sImulAted Learning | Copa Blwyddyn 1 | Casglwyd gwybodaeth sylfaenol am brofiadau cleifion drwy weithdai ymchwil weithredol wyneb yn wyneb ac ar-lein â phobl f/Fyddar, mewn clybiau Pobl Fyddar yng Nghymru. Bydd hyn o gymorth i lunio Prototeip VR i helpu Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol wrth ryngweithio â chleifion b/Byddar. Mae ymchwil lenyddol hefyd ar y gweill er mwyn helpu myfyrwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol i wella'u hempathi |
| Cymraeg a gwydnwch rhag dementia: gweithredu'n lleol er effaith fyd-eang | Gwersyll Cychwynnol | Roedd y Digwyddiad Pwll Tywod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2023 yn llwyddiant ysgubol, gyda thros 40 o bobl yn bresennol a niferoedd tebyg ar-lein. Digwyddiad dwyieithog ydoedd a ganolbwyntiai ar feithrin gallu i gyflwyno cynnig am grant rhaglen naill ai mewn ymateb i alwad gan UKRI neu'r llywodraeth, i ystyried dwyieithrwydd Cymraeg a gwydnwch rhag dementia |
| Creu Dyfodol Cynaliadwy drwy Ddylunio Gemau | Gwersyll Cychwynnol | Cyflwynwyd gweithdai Dylunio Gemau ar thema cynaliadwyedd i oddeutu 270 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 mewn 4 ysgol yn ardal "Bae Abertawe" (2 x Abertawe, 1 yn Llanelli ac 1 ym Mhort Talbot) |
| Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd | Gwersyll Cychwynnol | Mae cyhoeddiad o'r gyfrol gyntaf o storïau ffuglen Hinsawdd yn Sbaeneg wedi cael ei greu mewn cydweithrediad â myfyrwyr, artistiaid graffig, ac awduron creadigol yn Uruguay |
| Ystwytho: Addysg Ôl-uwchradd Drawsddisgyblaethol i Gymru | Gwersyll Cychwynnol | Wedi cynnal arolygon â chyfranogwyr o Flwyddyn 11 ac ar lefel Prifysgol i ganfod 1. Sut mae canfyddiadau ynghylch statws disgyblaeth yn effeithio ar y pynciau a ddewisir a 2. Sut mae hierarchaethau disgyblaethol yn amharu ar ein gallu i gymryd rhan mewn gwaith amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol? |





| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Robot Cymdeithasol ar gyfer Llesiant Meddyliol wedi'i Gyd-ddylunio â Phobl Hŷn | Gwersyll Cychwynnol | Cynhaliwyd dau weithdy gan ddefnyddio gwahanol dasgau i archwilio eu heriau emosiynol, drwy lunio byrddau stori a chyflwyno gwahanol fathau o robotiaid cymdeithasol i'r cyfranogwyr. Dadansoddwyd y data wedyn i amlygu heriau emosiynol a dewisiadau oedolion hŷn o ran dyluniad robot cymdeithasol |
| Technoleg Gyfreithiol ar gyfer Seiberddiogelwch | Cymrawd Gwadd | Daeth yr Athro Rafael Diaz a'i gydweithiwr, yr Athro Katie Smith am bythefnos o ymweliad â Phrifysgol Abertawe ym mis Ebrill 2023, a chynnal gweithdai, sgyrsiau a chyflwyniad poster yn ystod Sioe Arddangos MASI |
| Creu a Chyfleu Gweledigaethau Cadarnhaol am Ddyfodol Cynaliadwy | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Roedd tua 30 o bobl yn bresennol yn Nigwyddiad Gosod yr Agenda ar 13 ac 14 Gorffennaf 2023 o bob rhan o'r disgyblaethau academaidd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd yr awyrgylch yn wych, gyda chymaint o adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol, a fynegodd pa mor braf oedd creu cysylltiadau newydd i fynd ar eu trywydd |
| Cynhyrchion Naturiol – Cyfleoedd Newydd | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Roedd 70 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y Digwyddiad Gosod yr Agenda hwn, gan gynrychioli'r byd academaidd, diwydiant a chyrff cyhoeddus |
| Adeiladu Dyfodol Cydnerth: Gweithdy Gosod yr Agenda ar Algorithmau a Niwed Ar-lein | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Roedd 20 o bobl yn bresennol yn y Digwyddiad Gosod yr Agenda ar 20 Mehefin 2023, gan gynnwys cydweithwyr o'r llywodraeth a'r gwasanaeth sifil (Ofcom; Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth); gorfodi'r gyfraith (Europol); cwmnïau technoleg a sefydliadau ymarferwyr (Tech Against Terrorism; Moonshot). Daethant ag arweinwyr agweddau ynghyd o bob un o dair cyfadran y brifysgol, ynghyd â chydweithwyr academaidd o brifysgolion eraill. Roedd adborth ar ôl y digwyddiad yn awgrymu bod y diwrnod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'w gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Partneriaethau |
|---|---|---|
| Robot Cymdeithasol ar gyfer Llesiant Meddyliol wedi'i Gyd-ddylunio â Phobl Hŷn | Gwersyll Cychwynnol | Cyngor Dinas Abertawe (gweithdy heneiddio, gŵyl Heneiddio'n Dda ar y traeth), Athrofa Awen, Prifysgol Abertawe (arddangosiad Diwrnod Agored ac arddangosiad rhanddeiliaid), Age Cymru (wedi recriwtio cyfranogwyr ar gyfer gweithdai), Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe (arddangosiad i fusnesau lleol) |
| SunChat: SUN safety Conversations about Healthy Attitudes to Tanning: exploring perceptions of school children and their parents/carers [Cam 1] | Gwersyll Cychwynnol | Dr Rachel Abbott o BIP Caerdydd a'r Fro |
| Adeiladu Dyfodol Cydnerth: Gweithdy Gosod yr Agenda ar Algorithmau a Niwed Ar-lein | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Ofcom, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Europol, Tech Against Terrorism, Sefydliad RESOLVE, Moonshot |
| Creu Dyfodol Cynaliadwy drwy Ddylunio Gemau | Gwersyll Cychwynnol | Ms. Marina Saez Lecue, Consortiwm Canolbarth y De, Ysgol Gynradd Sandfields, Ysgol Pen Rhos, Ysgol Gynradd Gymunedol Clwyd, Ysgol Gynradd Gymunedol Sea View |
| Hiliaeth Wrth-Asiaidd yn ystod ac ar ôl COVID | Summit Year 1 | Prifysgol Lancaster, Prifysgol Bournemouth, Y Gymdeithas Pobl Tsieineaidd yng Nghymru, Cyngor Hil Cymru, Canolfan Gymunedol Affricanaidd Cymru |
| Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd | Gwersyll Cychwynnol | Université Grenoble-Alpes, Universidad de Alcalá de Henares, Universidad Complutense de Madrid, Universidad Autonoma de Madrid, Universidad de Salamanca, partneriaid America Ladin yn Uruguay, gan gynnwys artistiaid, ymarferwyr addysg, a gweithredwyr/ymgyrchwyr cymdeithasol, Sefydliad Addysg Uwch, Uruguay |





| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Partneriaethau |
|---|---|---|
| Creu a Chyfleu Gweledigaethau Cadarnhaol am Ddyfodol Cynaliadwy | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Cynghrair Seicoleg yr Hinsawdd, CSA Cae Felin, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Down to Earth, Y Ganolfan Deall Ffyniant Cynaliadwy, Prifysgol Nottingham, Prifysgol Dinas Dulyn a Chanolfan Ymchwil Dyfodol y Ffindir, Sefydliad Schumacher ar gyfer Systemau Cynaliadwy, Cynllun Gweithredu Byd-eang, Prifysgol Essex, Adfree Cities, Prifysgol Surrey, Canolfan ar gyfer Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol |
| Cynhyrchion Naturiol – Cyfleoedd Newydd | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Prifysgol Arctig Norwy, Coleg y Brenin Llundain, DTU Biosustain, Prifysgol Ffederal Fluminese, datblygiadau Hacer, Gwymon Gŵyr, Bioextractions, Prifysgol Aberystwyth, Medina, Indigena Cyf, Prifysgol Bryste, Prifysgol Aberdeen, Agile Solutions, Pinnaderm, Cyfadran yr Amaethwyddorau Trofannol, Prifysgol Wageningen, Prifysgol Orleans, Phytoquest, Zimmer & Peacock, Pukka Herbs, Gwymon, Canolfan Helmholtz ar gyfer Ymchwil i Heintiau (HZI), Yr Almaen, Prifysgol Fraunhofer, Agroceutical, Gardd Cymru, AMPLY Discovery, Prifysgol Ffederal Rio de Janeiro, Prifysgol Ghent, Canolfan John Innes, Gerddi Kew, New England Biolabs, Cyngor Dinas Abertawe |
| Prosiect ar y Cyd rhwng India a'r DU i Ddatgarboneiddio er mwyn Sicrhau Canlyniadau Sero Net Teg (ASE 2022) | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2022 | Tata Capital Cleantech Ltd, BHU, Varanasi, BIPVCo, DST, Ecosequestration Trust, EPSRC, IICT Hyderabad, IISc, Bangalore, IISER Pune, IIT Bombay, IIT Kanpur, IIT Madras, Coleg Imperial, JNCASR, Prifysgol Lancaster, Prifysgol South Bank Llundain, NCL, NSG-Pilkington, Coleg Gwledig yr Alban, Caeredin, SunriseCSP, Sefydliad Gwyddor Gymdeithasol Tata, UKRI, Prifysgol Ulster, Prifysgol De Florida, Prifysgol Caergrawnt, Prifysgol Mysore |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Partneriaethau |
|---|---|---|
| Athletwyr Trawsrywiol mewn Chwaraeon Elît | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2022 | Francine Hetherington Raveney (hi), Dirprwy Ysgrifennydd Gweithredol y Cytundeb Rhannol Ehangach ar Chwaraeon (EPAS), Cyngor Ewrop, Abby Barras (hi) a Verity (Vez) Smith (ef), Mermaids, Madeleine Pape (hi), Ymchwilydd Ôl-ddoethurol, Prifysgol Lausanne, Sone Erikainen (nhw), Prifysgol Aberdeen, yr Athro Cesar Torres, SUNY Brockport (Brockport, Efrog Newydd), UDA, Irena Martinkova, Athro Cyswllt Cinanthropoleg, Jim Parry, Athro Gwadd Athroniaeth Chwaraeon, Prifysgol Charles ym Mhrâg, y Weriniaeth Tsiec, Jo Harper, Prifysgol Loughborough, Blair Hamilton (hi), Prifysgol Brighton, Hugh Torrance (ef), LEAP Sports Scotland, Tim Naylor (ef), Cyfarwyddwr Uniondeb a Rheoleiddio a Naomi Howgate, Pennaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain, Genevieve Gordon-Thomson, Prif Weithredwr Tactic Connect a Chyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Chwaraeon, Technoleg a'r Gyfraith, Prifysgol De Montfort, Jason Webber (ef), Rheolwr Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Uniondeb, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Jeff Whitley, Swyddog Gweithredol Llesiant Chwaraewyr, Y Gymdeithas Pêl-droedwyr Proffesiynol |
| Y Lab Hinsawdd Byd-eang | Copa Blwyddyn 1 | Fern Smith yn Emergence (emergence-uk.org), Carolina Caycedo, Artist-Gymrawd Cyntaf Latinx a Chymrawd Borderlands, Canolfan Vera List ar gyfer y Celfyddydau a Gwleidyddiaeth, Christine Kettaneh, Artist Libanaidd wedi'i lleoli yn Beirut, Marega Palser; Dawnsiwr ac Artist Gweledol Seiliedig ar Berfformiad |
| CREDENTIALs: inCReasing health professional students' Empathy with Deaf patients' ExperieNces Through sImulAted Learning | Copa Blwyddyn 1 | Canolfan Pobl Fyddar Abertawe, Canolfan Pobl Fyddar Llanelli, ReScape – VR, Cathie Robins-Talbot – Ymgynghorydd Annibynnol ar Fyddardod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Technoleg Gyfreithiol ar gyfer Seiberddiogelwch | Cymrawd Gwadd | Rafael Diaz PhD, Ysgol Seiberddiogelwch, Norfolk |





| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Partneriaethau |
|---|---|---|
| Cymraeg a gwydnwch rhag dementia: gweithredu'n lleol er effaith fyd-eang | Gwersyll Cychwynnol | Sefydliad Max Planck ar gyfer Astudio Amrywiaeth Grefyddol ac Ethnig, Prifysgol Adam Mickiewicz, Gwlad Pwyl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Sir Ddinbych, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, Llyfrgell y Bobl, Y Brifysgol Agored, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, IAITH Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, My Choice Healthcare, Hengoed Care, Prifysgol Aberystwyth, Sunset West Care Group, Seicoleg Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant David, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Bryste, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Rhieni Dros Addysg Gymraeg |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Effaith |
|---|---|---|
| Adeiladu Dyfodol Cydnerth: Gweithdy Gosod yr Agenda ar Algorithmau a Niwed Ar-lein | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Gofynnwyd cwestiynau ansoddol hefyd am ymchwil yn y dyfodol a'r heriau o'n blaen. Ymatebodd ein cyfranogwyr drwy ddeud y byddai defnyddio platfformau arbenigol, cynyddu tryloywder a mesur ymatebion polisi o gymorth inni wrth ddylunio ceisiadau am gyllid allanol |
| Hiliaeth Wrth-Asiaidd yn ystod ac ar ôl COVID | Copa Blwyddyn 1 | Cyflogodd y prosiect ddau fyfyriwr PhD fel Cynorthwywyr Ymchwil. Deuai'r naill o Brifysgol Lerpwl a'r llall o Brifysgol Caerhirfryn. Teimlai'r ddau Gynorthwyydd Ymchwil fod y broses ymchwil yn rhoi cyfle iddynt gaffael setiau sgiliau cynhwysfawr, ac i wella methodolegau ymchwil meintiol ac ansoddol. Arweiniodd hyn at ddatblygu gyrfa un o'r Cynorthwywyr Ymchwil a sicrhaodd rôl fel ymchwilydd amser llawn yn Tsieina |
| Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd | Gwersyll Cychwynnol | Bu'r prosiect yn allweddol er mwyn meithrin cysylltiadau cryf, oddi mewn y tîm a oedd newydd ei ffurfio a chyda chydweithwyr o amgylch y byd |

| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Cynlluniau |
|---|---|---|
| SunChat: SUN safety Conversations about Healthy Attitudes to Tanning: exploring perceptions of school children and their parents/ carers [Cam 1] | Gwersyll Cychwynnol | Gwnaeth Tîm y Prosiect nifer o gysylltiadau newydd drwy fynychu cyfarfodydd misol a gweithdai MASI, a gofynnwyd iddynt gydweithio ar gynigion cyllid yn y dyfodol drwy ddefnyddio dulliau ymchwil sy'n canolbwyntio ar blant. Yr hyn yr oedd tîm y prosiect yn ei deimlo'n fwy na dim oedd lefel yr ysbrydoliaeth yn sgil bod yn rhan o MASI. Roedd gallu bod yn rhan o grŵp mor arloesol a blaengar o bobl yn hynod ysgogol. Maen nhw wedi ymrwymo i barhau â'r un lefel o ymroddiad a bwrw ymlaen â'u hymchwil |
| Ailfframio ymreolaeth mewn naratifau argyfwng hinsawdd: grymuso pobl ifanc cydnerth yng Ngogledd a De'r Byd | Gwersyll Cychwynnol | Mae Partneriaeth Strategol wedi cael ei datblygu â Labordy Ymchwil ILCEA4 yn Université Grenoble-Alpes, a rhoddwyd cyllid i drefnu cynadleddau chwe-misol dros 2 flynedd, gan ddechrau ym mis Tachwedd 2023. Ffocws y cynadleddau fydd "Naratifau a storïau am newid hinsawdd (diwedd yr 20fed a'r 21ain ganrif)". Maent ar ganol datblygu rhwydwaith Ewropeaidd gyda chydweithwyr, gan gynnwys sefydliadau anrhydeddus yn Sbaen fel Universidad de Alcalá de Henares, Universidad Complutense de Madrid, Universidad Autonoma de Madrid, ac Universidad de Salamanca. Mae cysylltiadau cryf wedi cael eu datblygu â phartneriaid Lladin Americanaidd yn Uruguay, gan gynnwys artistiaid, ymarferwyr addysg, a gweithredwyr/ymgyrchwyr cymdeithasol. Mae'r prosiect wedi cael llawer o sylw gan wledydd eraill a hoffai ymuno â ni wrth ei ailadrodd yn y dyfodol, fel yr Ariannin, Chile, Brasil, Mecsico, Yr UD, Ffrainc, Sbaen, Lloegr, Cymru a'r Eidal. Maent hefyd wedi cael gwahoddiad i gyflwyno canlyniadau dros dro mewn sgyrsiau a chynadleddau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol |





| Buddsoddiad | Math o Fuddsoddiad | Cynlluniau |
|---|---|---|
| Creu a Chyfleu Gweledigaethau Cadarnhaol am Ddyfodol Cynaliadwy | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Gwnaed cysylltiadau â menter amaethyddol a gefnogir gan y gymuned leol ac ymwelwyd â'i safle yn Ysbyty Treforys. Maen nhw'n mynd i gydweithio â nhw ar Ysgoloriaeth Ymchwil fydd yn dechrau ym mis Hydref. Hefyd yn trafod cydweithio ar gasglu data ar gyfer prosiect ar weithgareddau'n seiliedig ar natur a llesiant. Mae Blog wedi cael ei ysgrifennu ar gyfer elusen a oedd yn bresennol yn y digwyddiad, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru newydd ofyn iddynt ysgrifennu blog ar gyfer ei wefan newydd sy'n canolbwyntio ar ddeall llesiant meddyliol.<br><br>Mae pawb a oedd yn bresennol yn awyddus iawn i gyfrannu at y papur gwyn, felly rhoddir ystyriaeth i fersiwn addasedig ar gyfer cyfnodolyn academaidd. Mae academydd o Brifysgol Nottingham wedi gofyn am gael cyfrannu at gynnig ariannu ar gyfer llesiant i'r dyfodol, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal â chynrychiolwyr Adfree Cities ynghylch llunio cynnig am brosiect hysbysebion a llesiant cyhoeddus. Ceir cryn awydd i gynnal y gymuned fechan a adeiladwyd yn ystod y digwyddiad |
| Lablet Mumbai MASI | Copa Blwyddyn 2 | Ar hyn o bryd yn archwilio Grant Cyngor Ymchwil Ewrop a hefyd yn ymateb i alwadau AI Cyfrifol. Nid oes unrhyw amheuaeth ym meddwl PI fod yr ymchwil a gyflawnwyd drwy MASI yn allweddol er mwyn siapio ei ragolygon a'i safbwyntiau, ac wedi gwneud iddo sefyll allan ymhlith ymgeiswyr a oedd yn cystadlu ag ef pan gafodd ei gyfweld ar gyfer y swydd Darlithyddiaeth |
| Cynhyrchion Naturiol – Cyfleoedd Newydd | Digwyddiad Gosod yr Agenda 2023 | Mae cyfarfodydd dilynol ar y gweill i drafod a datblygu cyfleoedd posibl am gyllid |
| Cymraeg a gwydnwch rhag dementia: gweithredu'n lleol er effaith fyd-eang | Gwersyll Cychwynnol | Gan fod y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd bellach wedi ffurfio 4 Rhith-Sefydliad, mae James Murray ac Andrea Tales yn rhan o'r Sefydliad "Heneiddio'n Iach a Chlefydau Cronig", ac mae'r ddau'n aelodau o'r pwyllgor llywio. Trafodwyd eu hymagwedd yn y pwyllgor llywio cyntaf, ond soniwyd hefyd fod diffyg ymagwedd hydredol at heneiddio a chlefydau cronig yng Nghymru. Ers hynny, gofynnwyd iddynt gydgysylltu gweithdy (gweithdy cyntaf y Rhith-sefydliadau) i drafod sefydlu "Astudiaeth heneiddio hydredol Cymru", gydag Abertawe'n arwain yr astudiaeth honno. Byddai astudiaeth hydredol Gymreig o heneiddio yn ymgorffori'r holl arferion gorau o astudiaethau cyfatebol yn Iwerddon (TILDA), Gogledd Iwerddon (NICOLA) a Lloegr (ELSA) Dyma fydd prif allbwn cyllid y Gwersyll Cychwynnol |